# CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil County Borough Council

Papur newydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | *Rhifyn* 61 | *Rhagfyr* 2021



Diweddariad sefyllfa ariannol y Cyngor – **gweld tudalen 2**
Gwybodaeth ailgylchu Nadolig – **gweld tudalen 6**



## Croeso i rifyn y Nadolig o Cyswllt, sydd yn llawn gwybodaeth o glawr i glawr.

Ers y rhifyn diwethaf mae hi wedi bod yn dymor Hydref o wobrwyon i'n gorsaf fysiau £12miliwn, gyda gwobrau am gynaliadwyedd a chleient y flwyddyn. Llwyddiant mawr i adeilad ar gyfer yr 21ain ganrif.

Rwy'n hynod falch bod Ysgol y Graig yng Nghefn Coed y Cymer ar agor ers dechrau'r tymor ym mis Medi. Roedd hwn yn broject agos i'm calon ac rwy'n falch o weld ei wireddi gan ddarparu adeilad ar gyfer yr 21ain ganrif i ddisgyblion a staff. Darllenwch am yr ysgol ar dudalen 3.

Ar ddechrau mis Hydref cefais y fraint o gwrdd ag wyth o aelodau newydd Bwrdd Sefydliad Cyfarthfa, a sefydlwyd i ddatblygu Castell Cyfarthfa, y Parc a Gwaith Cyfarthfa yn atyniad twristiaeth o bwys. Rwy'n edrych ymlaen at rannu mwy o wybodaeth mewn rhifynnau i ddod.

Ym mis Tachwedd, roeddem yn gyffrous i rannu newyddion am raglen adnewyddu'r YMCA, gyda buddsoddiad o £8.6m yn y project hir disgwyliedig hwn. Rwy'n edrych ymlaen I weld yr adeilad Rhestredig Gradd II yn trawsnewid yn y dyfodol agos. Darllenwch fwy ar dudalen 5.

Ydych chi'n barod am y gaeaf? Gyda'r tywydd oer eisioes yma, mae gwybodaeth ddefnyddiol ar dudalen 6, yn cynnwys rhifau ffôn brys a lleoliad y gwybodaeth ddiweddaraf os mewn argyfwng.

Ar dudalen 7 gallwch ddarllen sut mae'r gwaith trwsio ar ôl Storm Dennis yn mynd a gweld lluniau o'r gwaith sydd wedi ei orffen hyd yn hyn.

Mae hi'r adeg o'r flwyddyn ble byddwn yn gofyn i drigolion sut dylen ni flaenoraiaethu ein gwasanaethau Cyngor a gosod ein Treth Cyngor am y flwyddyn arianol. Darllenwch sut i ddweud eich dweud yn yr erthygl gyferbyn.

Mae cymaint o bethau cyffrous yn digwydd ym Merthyr Tudful ar hyn o bryd, gan gynnwys agor tafarndai a thai bwyta. Darllenwch am y bwyty poblogaidd o Dde Cymru sy'n agor ym Merthyr Tudful, The Mine at CF47 ar dudalen 4.

Byddai yn anghywir i mi adael y rhifyn yma heb dalu teyrnged i Howard Barrett, fy nghyd Gynghorydd Ward, a fu farw ar Hydref 31ain 2021. Bydd colled ar ôl Howard gan bawb oedd yn ei adnabod.

Yn olaf, ga' i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd arbennig a llewyrchus ar gyfer 2022.

Cynghorydd Lisa Mytton
Arweinydd

# Katy Richards i ymuno â Maer yr Ieuenctid, Samee Fureed fel Dirprwy Faer Etholedig

Ym mis Hydref 2021, cafodd Katy Richards ei hethol yn Ddirprwy Faer Etholedig ac mae'n ymuno â'r Maer Ieuenctid Etholedig, Samee Fureed ac Andrew Miller, y Maer Ieuenctid cyfredol er mwyn cynrychioli pobl ifanc y Fwrdeistref Sirol.

Mae rôl y Maer Ieuenctid yn un bwysig yn y fwrdeistref gan sicrhau bod modd mynd at galon yr hyn sydd yn bwysig i blant a phobl ifanc Merthyr Tudful. Mae Katy wedi mynegi ei chyffro a dywedodd: ***"Rwy'n gyffrous i gael fy ethol yn Ddirprwy Faer Ieuenctid ac rwy'n edrych ymlaen at ddechrau'n ffurfiol, fis Mai nesaf a gweithio â Samee, y Maer Ieuenctid. Mae nifer o heriau yn ein hwynebu ond rwy'n gwybod y gallwn wneud gwahaniaeth. Diolch i bawb wnaeth bleidleisio i mi."***

Mae'n Fforwm Ieuenctid am fynd i'r afael â nifer o broblemau sydd yn gysylltiedig â Covid fel y cynnydd mewn achosion iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc. Mae Samee yn barod wedi mynegi ei ddyhead i fynd i'r afael â'r broblem hon gan gynnwys edrych ar drosedd casineb a bwlio. Dywedodd: ***"Rwy'n edrych ymlaen at fod yn Faer Ieuenctid a darparu'r hyn y mae pobl ifanc Merthyr Tudful wedi pleidleisio i mi eu cyflawni drostyn. Rwy'n gyffrous i gael gweithio â Katy y Dirprwy Faer Ieuenctid a gweld y syniadau newydd y bydd hi'n dod gyda hi i'r rôl."***



## Arbenigwyr blaenllaw yn ymuno â'r tîm i lywio datblygiad Cynllun Cyfarthfa

Mae cyn Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a golygydd papur newydd The Times ymhlith wyth aelod newydd o fwrdd Sefydliad Cyfarthfa a sefydlwyd er mwyn datblygu Castell a Pharc Cyfarthfa yn gyrchfan bwysig ar gyfer twristiaid.

Roedd tad Syr Simon Jenkins yn hanu o Ddowlais; mae'n awdur ac yn newyddiadurwr amlwg, yn gyn Dirprwy Gadeirydd i English Heritage ac mae ar hyn o bryd yn golofnydd i'r Guardian.

Yr aelodau newydd, eraill yw:

- Hanif Kara, cyd-sylfaenydd AKT II; un o brif gwmnïau peirianneg strwythurol a sifil y byd.
- Ewan Jones, sydd yn bartner â'r penseiri Grimshaw, y cwmni a gynlluniodd yr Eden Project yng Nghernyw.
- Geoff Hunt, Prif Swyddog Gweithredol Arup, ledled y DU, India, y Dwyrain Canol ac Affrica a Chyn Cadeirydd Groundworks Wales.
- Sara Turnbull, amgylcheddwr siartredig, arbenigwraig sydd yn torri ei chwys newydd yn gymdeithasol ac arbenigwraig ar gynaliadwyaeth.
- Dr Carol Bell, Is-lywydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Is-gadeirydd Canolfan Mileniwm Cymru.
- Marion Loeffler, hanesydd o'r Almaen ac arbenigwraig ar hanes diwydiannol Cymru sydd ar hyn o bryd yn Ddarllenydd Hanes Cymru ym Mhrifysgol Cymru ac sydd wedi cyflwyno rhaglenni hanes ar S4C.
- Robert Rummey, pensaer tirwedd sydd yn arbenigo mewn rhoi ail fywyd i asedau hanesyddol er budd adfywio, twristiaeth, addysg a'r amgylchedd.

Maent yn ymuno ag aelodau presennol y bwrdd: y Cadeirydd, Geraint Talfan Davies, cyn Rheolwr BBC Cymru a Chadeirydd Opera Cenedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig; y Dirprwy Gadeirydd, Rowland Davies sydd yn gyfreithiwr ac yn arbenigwr eiddo; Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Lisa Mytton; y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Geraint Thomas a Helen Protheroe a anwyd ym Merthyr ac sydd yn Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn y Coleg Celf Brenhinol yn Llundain.

***"Mae'n dweud cyfrolau am y cynllun dyfeisgar hwn fod cymaint o unigolion sydd yn arweinwyr yn eu meysydd am fod yn rhan o wneud i hyn ddigwydd. Dylai ansawdd aelodau'r bwrdd roi hyder i ddarpar gyllidwyr ac i'r Llywodraeth,"*** meddai Geraint Talfan Davies.

Cyllidodd y Cyngor ddatblygiad y prif gynllun ar gyfer Cyfarthfa ac yn dilyn ei gyhoeddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £1.2 miliwn o arian datblygu i'r prosiect.

# Gwahoddiad i breswylwyr ddweud eu dweud am gyllideb y Cyngor

Mae preswylwyr Merthyr Tudful yn cael y cyfle i leisio barn am sut y dylai y Cyngor wario eu cyllideb am 2022/23.

Mae ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y gweill ar hyn o bryd a tros y misoedd nesaf bydd Cabinet y Cyngor ar hyd a lled Merthyr Tudful yn eich annog chi y preswylwyr pa wasanaethau y dylid eu blaenoriaethu yn ogystal a sut y credwch y dylid gosod y gyllideb am y flwyddyn i ddod. Bydd Aelodau y Cabinet ar gael i wrando,i ateb cwestiynau ac i rannu awgrymiadau gyda cydweithwyr a thrafod.

Ar adeg argraffu, roedd manylion dyddiadau y daith yn cael eu cwblhau. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhain, ewch i'n gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Mae arolwg ar-lein are gael yma: smartsurvey.co.uk/s/MTCBCBudget22-23

Hefid, gellir archebu copiau papur trwy ffonio 01685275000 neu e-bostio: Corporate.Communications@merthyr.gov.uk

Bydd yr arolwg hwn yn ca ear dydd Mercher Chwefror y 9fed 2022.

## Pa mor fodlon ydych chi fel preswylydd ym Merthyr Tudful?

Gadewch inni wybod a chael cyfle i ennill talebau Tesco gwerth £100.

Fel defnyddiwr o wasanaethau cyhoeddus ym Merthyr Tudful, mae'r Cyngor yn eich gwahodd i gymryd rhan yn ein Arolwg Preswylwyr.

Rydym am gael eich barn ar eang o faterion a gwasanaethau sy'n berthnasol i Ferthyr Tudful, yn cynnwys addysg, gofal cymdeithasol a rheoli gwastraff.

Gellir gweld yr arolwg ar-lein ar **smartsurvey.co.uk/s/ResidentsSurvey2021**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, os hoffech help i lenwi'r ffurflen, neu os hoffech gael copi o'r holiadur mewn fformat neu iaith arall, e-bostiwch corporate.communications@merthyr.

# Sefyllfa Ariannol



Diweddariad gan y Cynghorydd Andrew Barry, Aelod y Cabinet dros Adnoddau a Llywodraethiant:

Roeddwn eisiau rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru o'r cyfrifon blynyddol am y Flwyddyn Ariannol ddiwethaf.

Yn 2016/17 rhagdybiwyd gwarged arianol o tua £20m erbyn 2019/20.

Mae'r cyfrifon diweddaraf yn dangos bod yr Awdurdod mewn sefyllfa llawer cryfach. Dyma sefyllfa ariannol cryfaf y Cyngor ers degawdau, a llwyddwyd ei gyrraedd yn un o'r blynyddoedd anoddaf i'r Cyngor ei wynebu gyda Storm Dennis, Brexit a Covid-19 yn effeithio ar bob un ohonom.

Mae hyn wedi bod yn bosib oherwydd Gwaith called staff y Cyngor sydd wedi adnabod arbedion ac wedi darganfod ffyrdd mwy effeithio o weithio.

Gyda arian yn weddill, mae'r Awdurdod wedi gallu buddsoddi:

- Dros £700,000 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bron £800,000 i gyllido meithrin amser llawn mewn 2 ysgol dros y 4 mlynedd nesaf
- £800,000 i gefnogi cynlluniau Adfer, Trawsnewid a Gwella y Cyngor
- £200,000 i gefnogi Prentisiaethau y Cyngor

Mae gan bob Cyngor gyrfifoldeb cyfreithiol i gadw arian wrth gefn:Mae'r Arian Wrth Gefn Cyffredinol yma ar gyfer y Cyngor i ymateb gyfrifoldebau ac atebolrwydd annisgwyl: ar Arian Wrth gefn a glustnodir i ymateb i angheniona ragdybir ar draws gwasanaeth y Cyngor. Gallwn bellach osod £600,000 i gynyddu ein arian wrth gefn cyffredinol i £5.33m.

Bydd hyn yn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda am flynyddoedd.

Wrth ddweud hyn, hoffwn dawelu eich meddwl nad ydym am laesu dwylo. Mae llawer yn digwydd tu ol i'r llenni i sicrhau yn bod yn cael y gwerth gorau am arian.

Hoffwn ddiolch i'r rhai hynny sydd wedi perfformio yn ddiwyd a dygn yn yr adegau caled i gyflwyno y ffigyrau anhygoel hyn yn wyneb adfyd.

I'n Staff, Aelodau Etholedig, gwirfoddolwyr ac yn bwysicach ein cymunedau.

Mae wedi bod yn ymdrech Tîm Merthyr.

Diolch yn fawr.




# Disgyblion Cyngor Ysgol yn cwestiynu Cynghorwyr ynghylch materion amgylcheddol

Ym mis Medi, cynhaliwyd sesiwn rhithiol â disgyblion Cynghorau Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog a Threlewis. Gofynnodd y disgyblion gwestiynau ynghylch beth all gael ei wneud ynghylch materion amgylcheddol yn yr ardal.

Soniodd disgyblion Ysgol Gynradd Trelewis am broblemau sbwriela mewn nant gyfagos y mae'n rhaid i blant ei chroesi er mwyn mynd i'r ysgol a siaradodd disgyblion Ysgol Gynradd Bedlinog am ffensus sydd wedi torri a baw cŵn sydd yn broblem ar ei ffordd i'r ysgol.

Dywedodd y Cynghorydd Malcolm Colbran, Maer Merthyr Tudful a Chynghorydd ym Medlinog: ***"Mae'n bwysig iawn fod Cynghorwyr yn ymgysylltu â phobl ifanc a'u bod yn gwrando ar eu safbwyntiau. Roedd y disgyblion wedi ymchwilio i'r materion ac yn gofyn cwestiynau gwych. Gwnaeth pob un ohonom fwynhau'r cyfarfod ac roedd yn wych gweld pob un o'r disgyblion yn cymryd diddordeb mewn materion lleol."***

Roedd y cyfarfod rhithiol yn brofiad gwych ac yn gyfle i'r disgyblion ddysgu am sut y mae'r Cyngor yn gweithio ond roedd hefyd yn gyfle i Gynghorwyr ddeall y problemau'n well drwy wrando ar brofiadau'r disgyblion o'r rheng flaen.




# SAFONAU'R IAITH GYMRAEG YN GWELLA, LEDLED Y FWRDEISTREF



**Mae'r Cyngor a'r sector Addysg ym Merthyr Tudful wedi bod yn brysur yn cyflawni safonau'r iaith Gymraeg yn ystod y misoedd diwethaf a chafwyd cryn lwyddiant. Ym mis Hydref, cynhaliwyd y digwyddiad blynyddol, Shwmae Su'mae yng Nghanolfan Gymunedol Aber-fan a Chastell Cyfarthfa a chafwyd perfformiadau yn yr iaith Gymraeg gan ysgoliob lleol yn ogystal â pherfformiadau cerddorol.**

**Ym mis Tachwedd, derbyniodd disgyblion Ysgol Pen y Dre ganmoliaeth gan Gynghorwyr am eu llwyddiannau yn Eisteddfod y Rhondda a'r Urdd lle yr enillwyd nifer o wobrau am ganu, rhyddiaith ac actio. Ym mis Gorffennaf, defnyddiodd disgyblion o ysgolion clwstwr Afon Taf eu sgiliau ieithyddol y tu allan i'r ystafell ddosbarth a chafodd dau ddigwyddiad eu cynnal ar drac rhedeg John Sellwood er mwyn rhoi hyder iddynt ddefnyddio'r iaith gan wneud hynny mewn modd hwyliog.**

**Ers i'r Cyngor dderbyn ei hysbysiad cydymffurfiaeth diwethaf gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn 2015, mae Cyngor Merthyr Tudful wedi mynd un cam ymhellach er mwyn sicrhau fod strategaethau yr iaith Gymraeg wedi ei hymwreiddio oddi fewn i ddiwylliant, addysg ac mewn cyfathrebiadau, ledled y fwrdeistref a hynny er mwyn darparu cydraddoldeb. Mae'n bendant yn mynd o nerth i nerth.**

# Pennod newydd Gwrthfwlio yn y Fwrdeistref

Mae CBSMT yn cefnogi ymgyrchu gwrthfwlio ar y cyd â phlant a phobl ifanc o'r fwrdeistref sirol. Bydd yr ymgyrch yn adfywio'r strategaeth bresennol a ddiwygiwyd yn 2020, yn dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu a gwella llesiant disgyblion.

Ers i'r Cyngor gyhoeddi ei strategaeth gwrthfwlio gyntaf yn 2011/12, mae ymchwil yn dangos bod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion sydd yn cael eu hadrodd am fwlio corfforol a bwlio ar sail rhywedd ond mae mathau eraill o fwlio fel bwlio ar sail hiliaeth wedi gostwng.


Dywedodd y Cynghorydd Lisa Mytton, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar gyfer Dysgu: ***"Ein nod yw cynorthwyo ysgolion i ddatblygu amgylchedd lle y mae plant yn teimlo'n hapus a diogel, lle y parchir amrywiaeth a thrafodaeth iach. Rydym hefyd am leihau'r niferoedd o fwlio sydd yn cael eu nodi mewn ysgolion ac i bob ysgol allu cyrchu strategaethau i gynorthwyo pobl ifanc.***

***"Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu canllaw gwrthfwlio statudol er mwyn darparu cyngor ar sut i annog parch, goddefgarwch a charedigrwydd gan sicrhau eu bod yn cael eu hymwreiddio yn ein hysgolion, ledled y gymuned. Dim ond trwy gydweithio y gallwn gyflawni hyn ac mae wir yn gwneud gwahaniaeth."***



## Ysgol Gynradd Troedyrhiw yn creu Gardd Ecogyfeillgar

Yn gynharach eleni, bu disgyblion Ysgol Gynradd Troedyrhiw yn creu gardd ecogyfeillgar ar gyfer tyfu llysiau. Mae hyn yn rhan o fenter yr ysgol i ddyfod yn gynaliadwy ac yn ecogyfeillgar. Bydd y prosiect yn tyfu llysiau ar gyfer y gymuned leol ac yn dysgu disgyblion ynghylch pwysigrwydd bod yn gynaliadwy a hefyd yn gwella llesiant corfforol a meddyliol wrth wneud hynny.








# Ysgol y Graig yn agor

Ym mis Medi, agorodd adeilad deulawr a modern Ysgol y Graig yng Nghefn Coed ar gyfer disgyblion a staff. Mae'r ysgol newydd ar gyn safle Ysgol y Faenor a Phenderyn yn disodli'r hen adeilad. Mae'r adeilad yn gynaliadwy iawn ac mae yno systemau rheoli awtomatig, awyru carbon niwtral a goleuadau LED, ledled yr adeilad.

Mae'r Pennaeth, Mr Anstee yn fodlon iawn â'r ysgol newydd a dywedodd: *"Bydd y cyfleusterau a'r cyfleoedd y bydd yr adeilad anhygoel yn eu darparu yn cefnogi ac yn gwella'r cwricwlwm a'r profiad dysgu gan alluogi profiad dysgu'r 21 ganrif ar gyfer ein dysgwyr a'r gymuned ehangach. Mae'n gyfnod cyffrous ar gyfer addysg a dysgu yng Nghymru ac mae'r posibiliadau newydd a ddaw gyda'r adeilad hwn yn arwyddocaol iawn. Yn bwysicaf oll, mae'n plant wrth eu boddau â'r ysgol newydd a dywedodd un plentyn "Dyma'r peth gorau i mi ei weld, erioed - dylai pawb gael ysgol fel hon!" Mae dysgu llawer yn fwy nac adeilad ond does dim amheuaeth y bydd yr adeilad hwn yn ein galluogi i fod yn olau llachar yn ein cymuned leol a'n cynorthwyo i ddarparu'r cwricwlwm cyffrous, ymgysylltiol y mae'n disgyblion yn eu haeddu."*







## Y Gyfnewidfa Fysiau'n ennill gwobrau adeiladu

Enillodd y gyfnewidfa fysiau ddwy wobr adeiladu genedlaethol oddi fewn mis i'w gilydd, yr hydref hwn.

Cyhoeddwyd mai'r prosiect oedd enillydd y categori 'Cynaliadwyedd' yng Ngwobrau Adeiladu Rhagoriaeth yng Nghymru / Constructing Excellence in Wales Awards ar gyfer 2021. Derbyniodd y Cyngor hefyd wobr Cleient y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Sefydliad Adeiladu Siartredig (CIOB) yn Llundain.

Mae'r Wobr Cynaliadwyedd yn cael ei dyfarnu am 'berfformiad amgylcheddol a hinsawdd dda mewn adeiladu sydd yn cyflawni'r anghenion presennol ar gyfer tai, amgylcheddau gwaith a seilwaith a hynny heb dynnu oddi ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion eu hunain.'

Cafodd y prosiect ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a dyma hyb trafnidiaeth drydanol llawn cyntaf Cymru. Mae yma gyfleusterau ar gyfer gwefru cerbydau trydanol, nid oes yma ddarpariaethau nwy na thanwyddau ffosil ac mae'n defnyddio tanc dŵr glaw ar gyfer y toiledau cyhoeddus.

Defnyddiodd y contractwr, Morgan Sindall ddeunyddiau cryf, naturiol a chafodd yr adeilad ei adeiladu mewn haenau, yn unol ag egwyddorion yr 'Economi Gylchol.' Mae modd gwahanu, ailwampio neu adnewyddu pob haenen.

Cyrhaeddodd y Cyngor Bwrdeistref Sirol hefyd y rhestr fer ar gyfer y 'Cleient Gorau' gan Morgan Sindall am weithio ar y cyd ac mae'r gyfnewidfa ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau RTPI (Royal Town Planning Institute) Cymru ar gyfer Rhagoriaeth mewn Cynllunio yn 2021.

## Enwau lleoedd ym Merthyr Tudful wedi'u cynnwys mewn cyfres o bodlediadau a gweminarau

Mae rhai o enwau lleoedd a thirweddau Merthyr Tudful wedi'u cynnwys mewn nifer o bodlediadau a gweminarau a gynhyrchwyd mewn ymdrech i ddiogelu enwau lleoedd gwreiddiol, yn y Gymraeg.

Yn dilyn llwyddiant arolwg cyhoeddus i ddeall arwyddocâd enwau lleoedd a thirweddau pwysig ynghyd â darpariaeth map stori, rhyngweithiol ar-lein (www.culturalconnections.wales http://www.culturalconnections.wales/), mae deg podlediad a dau gweminar wedi cael eu cyhoeddi gan brosiect #CulturalConnections / CysylltiadauDiwylliannol.

Gellir dod o hyd i'r podlediadau ar bob prif blatfform gan gynnwys Spotify - https://spoti.fi/2Y0R19K, Apple podcasts a Google drwy chwilio am #CulturalConnections / CysylltiadauDiwylliannol.

Mae'n rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer 2014-2020 sydd wedi ei ariannu gan Gronfa'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad Gwledig a gan Lywodraeth Cymru.

Darparwyd y prosiect gan gwmni ymgynghorol amgylcheddol TACP (UK) Ltd o Gaerdydd a thîm yn cynnwys Black Mountains Archaeology, GeoArch, Jack Pulman-Slater a To the Blue Group.

# CCTV yn cael ei ddefnyddio er mwyn mynd i'r afael â gyrru gwrthgymdeithasol

Hoffai'r Cyngor sicrhau preswylwyr ein bod yn cymryd eu pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhai gyrwyr o ddifri. https://bit.ly/3CUsH8R @ SaferStreets_SG

Mae'n system CCTV Strydoedd Mwy Diogel sydd eisoes wedi arwain at arestio unigolion sydd o dan amheuaeth o ladrata hefyd yn cael ei defnyddio i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr heddlu ac ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd yn gysylltiedig â gyrru gwael.

"Mae'n staff CCTV wedi cynorthwyo Heddlu De Cymru i ddynodi unigolion sydd yn cael eu hamau o fod yn gyfrifol am ladrad a ddigwyddodd yng nghanol y dref," dywedodd Paul Lewis, Pennaeth Diogelwch.

"Rydym yn ymwybodol o bryderon eraill sydd gan y gymuned – mae'r tîm CCTV yn monitro digwyddiadau a bydd unrhyw luniau yn cael eu rhoi i'r heddlu."

Mae camerâu modern yn awr yn cael eu defnyddio yng nghanol y dref, yn dilyn grant o dros £500,000 gan y Swyddfa Gartref er mwyn cefnogi mentrau sydd yn rhwystro troseddau ledled Lloegr a Chymru.



# Golau Gwyrdd i Welliannau Teithio Llesol

Fel rhan o'i raglen Teithio Llesol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor ar fin dechrau gwaith ar gyfres o brosiectau i wella'r amodau ar gyfer cerdded a seiclo.

Ddydd Llun 15 Tachwedd, bydd gwaith yn cychwyn ar:

- uwchraddio'r man croesi presennol ar Stryd Fictoria i groesfan sebra - bydd hyn yn cymryd tan y Nadolig i'w gwblhau;
- llwybr a rennir gan gerddwyr a seiclwyr ac yn rhedeg ochr yn ochr â Stryd Bethesda - bydd hyn yn cymryd tan 31 Mawrth 2022;
- llwybr a rennir gan gerddwyr a seiclwyr ac yn rhedeg ochr yn ochr ag Avenue de Clichy o gylchfan Caedraw hyd at y system gylchu (31 Mawrth).

Bydd gwaith yn cychwyn ar y canlynol ym mis Ionawr 2022:

- gwelliannau i gylchfan Tesco fel bod croesi'r ffordd yn fwy diogel i gerddwyr - bydd hyn yn cymryd tan ganol mis Chwefror.

Ganol mis Chwefror, byddwn yn:

- cyflwyno man croesi â signal ar y Stryd Fawr Isaf rhwng y maes parcio a'r siopau (tan 31 Mawrth).

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Thomas, yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Tai a Masnacheiddio: ***"Mae'n wych ein bod wedi cael cyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni'r gwelliannau hyn i gerddwyr a seiclwyr yng nghanol y dref. Felly, byddwch yn amyneddgar â ni tra bo'r gwaith yn parhau."***

Mae croeso ichi e-bostio unrhyw sylwadau at active.travel@merthyr.gov.uk

# Pwll newydd ym Merthyr Tudful!

Mae tŷ bwyta poblogaidd iawn sydd yn denu gwesteion o bob cwr o'r DU yn agor ym Merthyr Tudful.



Mae'r Mine yn CF47 a Castelany's Fine Dining hefyd yn helpu'r economi leol trwy greu 25 o swyddi, y mwyafrif ohonynt yn bobl leol a gyflogir trwy dîm cyflogadwyedd y Cyngor yn gweithio gyda Tydfil Training i gyfweld a recriwtio pobl.

Mae'r bwyty hefyd yn helpu'r economi leol trwy greu 25 o swyddi. Cefnogodd Tîm Cyflogadwyedd y Cyngor, ynghyd â Tydfil Training, The Mine gyda'r broses gyfweld trwy ddarparu'r lleoliadau cyfweld dros gyfnod o dri diwrnod. Mae hefyd wedi cefnogi pobl leol gyda'r dyhead o sicrhau cyflogaeth gyda'r fenter fusnes newydd.

Mae'r tŷ bwyta gwreiddiol yng Nghwmgwrach ger Glyn Nedd yn llawn am y ddau fis nesa. Mae'r addurniadau yn dilyn thema lofaol, wrth gwrs - ceblau mawr fel byrddau, bwyd wedi ei weini ar rawiau, toiledau y cyfeirir atynt fel 'The Pits', addurniadau metal ar y waliau a wal atgofion i lowyr lle y gall cwsmeriaid osod lluniau o'u cyndeidiau a oedd yn gweithio yn y glofeydd.

Mae tŷ bwyta Merthyr Tudful yng Ngwrt Bowen, Pontmorlais mewn adeilad gwag a arferai fod yn dafarn, siop gigydd ac optegydd. Mae'r adeilad yn cael ei adfer i'r safon uchaf posib. Bydd yn dilyn thema ddiwydiannol a bydd yma waliau atgofion a lluniau Instagram. Cwrt Bowen yw'r deuddegfed adeilad i gael ei ailwampio'n llwyr a hynny fel rhan o Gynllun Tirlun Treftadaeth Pontmorlais y Cyngor a lansiwyd yn 2011.

Perchennog yr adeilad yw Murphy Corke Developments a dderbyniodd gyllid gan y Cynllun Tirlun Treftadaeth, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw a'r Cyngor. Derbyniodd Murphy Corke Developments hefyd gyllid Buddsoddiad Adfywio Thematig a Dargedwyd drwy raglen Trawsffurfio Trefi Llywodraeth Cymru.

Diolchodd Stuart James, Rheolwr Gyfarwyddwr The Mine i'r Cyngor am eu cynorthwyo i ddod o hyd i leoliad, cytuno ar rent a dod o hyd i staff. ***"Mae cefnogaeth Cyngor Merthyr wedi bod yn wych,"*** ychwanegodd. ***"Rydym wrth ein bodd gyda'r hyn y mae'r timau wedi eu gwneud i ni."***

The Mine at CF47 yw'r busnes diweddaraf i fanteisio ar gynllun Yn y Cyfamser y Cyngor Bwrdeistref Sirol sydd yn cefnogi mentrau newydd i agor eu busnesau mewn adeiladau gwag ynghanol y dref.

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod o'r Cabinet ar gyfer Adfywio, Trawsffurfio a Masnacheiddio: ***"Rydym mor falch i weld t bwyta gwych arall yn agor ynghanol y dref ac rwy'n si r y bydd The Mine mor boblogaidd â'r t bwyta yng Nghwmgwrach.***

- Os hoffech gymorth gan gynllun Yn y Cyfamser, cysylltwch â Chanolfan Mentergarwch Merthyr Tudful ar 01685 727509.

## Byddai gwaith ailgylchu plastigau yn creu mwy na 100 o swyddi

Mae'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio i geisio sylwadau a safbwyntiau preswylwyr ar y cyfleuster arfaethedig i ailgylchu a phrosesu plastigau ar dir gerllaw Ffordd Melin yr Afr yn awr wedi dod i ben.

Bydd yr ymgeisydd, Jayplass sydd yn gwmni ailgylchu plastigau blaenllaw yn y DU yn awr yn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau ac yn diweddaru gwefan y cynllun ag adran cwestiynau cyffredinol mewn ymateb i'r ymholiadau gafodd eu codi yn ystod y cyfnod ymgynghorol.

Hefyd, mae Jayplas yn cynnal trafodaethau â Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful er mwyn cyflwyno gwybodaeth ynghylch y cynnig a'r gobaith yw cwrdd â Chynghorwyr lleol er mwyn ateb unrhyw ymholiadau.

Rhagdybir y bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn newydd. Bydd y Cyngor yn gweithredu ei ymgynghoriad cyhoeddus ei hun wedi i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno'n ffurfiol.

Os rhoddir caniatâd cynllunio, bydd y gwaith o adeiladu'r ffatri yn dechrau yng ngwanwyn 2022 ac yn cymryd tua 12 mis i'w gwblhau.

Sefydlwyd Jayplas ym 1975, ac mae'n gweithredu naw safle ailgylchu a gweithgynhyrchu nwyddau eildro ledled y DU, gan arbenigo mewn proses "unigryw" ar gyfer creu ac ailgylchu plastigau.

Byddai'r cyfleuster arfaethedig yn cael ei adeiladu ar dir sydd wedi'i ddynodi'n barthau ar gyfer cyflogaeth a rheoli gwastraff, a saif i'r dwyrain o Heol Melin yr Afr ac i'r gorllewin o'r A4060 o fewn ardal ddiwydiannol sefydledig.

Byddai dau warws unigol yn gartref i offer a pheiriannau penodol ar gyfer golchi a phrosesu plastigau, a byddai'r cynhyrchion terfynol yn cael eu storio'n allanol mewn "byrnau" cyn eu symud ymlaen.



## Ymunwch â ni am ' deithiau cerdded meddylgarwch'

Ymysg y nifer o wasanaethau ar gael i bobl di-waith dros 25 oed mae rhaglen leol Pontydd i Waith 2 yn cynnig 'teithiau meddylgarwch'.

Mae'r teithiau wythnosol yn cael eu cynnwys ocr yn ochr â chefnogaeth gyda ffurflenni, ceisiadau am swyddi a hyfforddiant penodol i wella sgiliau.

Wedi ei leoli yn y Ganolfan Ddysgu Gymunedol yn y Gurnos, gyda adnoddau ar gyfer sgiliau adeiladu, TG a sgiliau gwasanaethau cwsmer/manwerthu (dim ond ychydig o'r mathau o hyfforddiant ar gael) a mae y staff yn dod allan I'r gymuned i'ch cefnogi.

Mae manteision taith gerdded feddylgarwch yn cynnwys gwela y system imiwnedd, y system gardiofasgiwlar, y system anadlu,iselder, gorbryder ac ymlacio meddyliol.

Mae wedi ei brofi yn wyddonol y mwyaf heini ydym y lleiaf y risg o afiechyd y gallon, bwysau gwaed uchel, strôc, clefyd y siwgwr math 2, cancr y frest a'r coluddyn a thorri asgwrn yn y glun a'r cefn.

Mae'r teithiau yn cael eu cynnal bob bore Mercher am 11am o amgylch Parc Cyfarthfa. I archebu lle cysylltwch â 01685 727099, ebost: nlc.enquiries@merthyr.gov.uk, neu ewch i'r dudalen Facebook.



## *Gwaith 'Uwchgynllun' i ddechrau parhau'n gyflym*

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cyhoeddi cynlluniau uchelgeisiol hir dymor i helpu Merthyr Tudful i fynd yn groes i'r duedd genedlaethol ble mae'r stryd fawr yn dirywio, a thrawsnewid canol y dref i fod yn ganolfan ffyniannus.

Yn 2020, bu tîm o ddylunwyr trefol, arbenigwyr eiddo masnachol ac arbenigwyr peirianneg sy'n darparu cyngor trafnidiaeth wedi llunio Cynllun Meistr Canol y Dref dros gyfnod o 15 mlynedd.

Gweledigaeth y 'cynllun creu lleoedd' yw y bydd gan ganol y dref, erbyn 2035, adeiladau ansawdd uchel ar gyfer preswylio, swyddfeydd, hamdden a manwerthu. Bydd sgwariau cyhoeddus newydd, gwagleoedd gwyrdd a 'glan yr afon fywiog'. Dywed mai'r nod yw creu canol i'r dref sydd 'â strydoedd sy'n gwahodd, sgwariau a llwybrau ble y bydd pobl yn teimlo wedi eu croesawu a'u calonogi.'

Cafodd y ddogfen ei gomisiynu gan y Cyngor, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru – a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i wella trafnidiaeth gyhoeddus ledled y wlad – ac a gaiff ei ddisgrifio wedi ei seilio ar 'uchelgais a rennir ar gyfer y dref a'i rôl o fewn y Brifddinas-Ranbarth'.

Cafodd ei gynhyrchu gan gwmni The Urbanists, sef cwmni dylunio, cynllunio a thirlunio ar y cyd â'r ymgynghoriaeth beirianyddol, Mott MacDonald a'r ymgynghorwyr eiddo masnachol Alder King.

Roedd dau brosiect llofnod yn allweddol i roi cychwyn ar drawsffurfio canol y dref: adfywio'r hen orsaf fysiau ar safle Maes y Clastir a'r orsaf reilffordd. Mae'r Cyngor yn chwilio am opsiynau ar gyfer safle Maes y Clastir, a bydd yn ymgynghori â busnesau a phreswylwyr canol y dref, gyrwyr tacsi, siopwyr a'r gymuned ehangach i helpu i siapio datblygiad.

***"Rydym yn gyffrous iawn am y delifriad y cynllun meistr, a fydd yn cydweddu asedau unigryw Merthyr Tudful gydag eiddo a gwasanaethau o ansawdd uchel a gwagleoedd cyhoeddus deniadol,"*** dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Trawsffurfio a Masnacheiddio y Cynghorydd Geraint Thomas.

Ymhlith y cynigion mae'r canlynol:

- Ailddatblygu'r orsaf reilffordd i greu porth croesawgar a phleserus a chysylltu â'r Stryd Fawr a'r gyfnewidfa fysiau newydd.
- Adfywiad o'r tirlun traddodiadol, gan ganolbwyntio'n benodol ar Adeiladau Rhestredig amlwg o werth cymdeithasol, hanesyddol a/neu bensaernïol.
- Newid defnydd i gynyddu'r nifer o gartrefi, gwestai a gwagleoedd gwaith yng nghanol y dref .
- Gwell llwybrau i gerddwyr a seiclwyr a phompren newydd i sefydlu 'glan yr afon sy'n fywiog, yn gysylltiol ac actif'.

## Hwb gyllido i adnewyddu a gwarchod cofeb Parc Troedyrhiw

Mae'r gofeb ym Mharc Troedyrhiw wedi derbyn anrheg penblwydd yn 100 oed wrth iddi gael ei hadnewyddu diolch i gyllid gan Ymddiriedolaeth Coffa Rhyfel a Chynllun Grantiau Ffos-y-Fran.

Mae'r gofeb a ddadorchuddwyd i'r cyhoedd ar Fedi 28 1921, a sydd wedi bod heb reiffl a ddygwyd rai blynyddoedd yn ol wedi derbyn cyfanswm o £7,347.60 o gefnogaeth i gael reiffl newydd ac atgynhyrchu y cynllun marmor gwreiddiol.

Talodd y cyllid am beintio dros enwau y rhai a gollwyd yn ystod y Ddau Ryfel byd, ailbwyntwyd y gofeb a thrwsio y stepiau a glanhau y cerrig.


Gwnaed y cais gan Glwb Institiwt Cyn Filwyr Troedyrhiw a gwnaed y gwaith gan gwmni Gwaith Cerrig Mossford.

Dywedodd Ysgrifennydd Clwb y Cyn-Filwyr, Barrie Broad " Mae'r gofeb yn ganolog i Barc Troedyrhiw ac mae'r gwaith yn gwella edrychiad y parc a'i wneud yn fwy atyniadol."

***"Mae'r clwb y gweithio gyda 6ed Grwp Sgowtiad Merthyr Tudful, Troedyrhiw a Eglwys St Ioan i drefnu gwasanaeth Sul y Cofio blynyddol yn y parc ac ble mae y gofeb yn brif ffocws."***

Dwedodd y Cyng Gareth Lewis: ***"Hoffwn i ddiolch i bwyllgor y Clwb Cyn-Filwyr am eu cefnogaeth a chymorth trwy'r project adnewyddu."***

***"Rydw I'n falch bod cyllid grant wedi ei gymeradwyo i'r project yma.***



***Mae cofebau rhyfel yn ein hatgoffa or gorffennol ac yn cadw y berthynas gyda y rhai a wnaeth yr aberth eithaf a chenedlaethau wedyn i werthfawrogi y rhyddid a ddaeth o ganlyniad i'w haberth."***

***"Mae Cofebau Rhyfel hefyd yn ein hatgoffa o wir gost rhyfel fel y gallwn gobeithio ddysgu y gwersi i osgoi anghydfod a cholled bellach, yn y dyfodol."***

Sefydlwyd Cronfa Gymunedol Ffos-y-fran gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol gyda cwmni mwyngloddio lleol Merthyr (South Wales) Limited.

Mae yn rhoi £1 am bob tunnel o lo o gynllun adfer Ffos-y-fran, ac ers ei agor yn 2007 mae mwy na £6m wedi ei ddyrannu i ystod eango grwpiau ac achosion da.

Mae Cynllun Grantiau Ffos-y-fran yn rhoi grantiau o hyd at £5,000 ddwywaith y flwyddyn , tra bod Cynllun Grantiau Bach yn cynnig hyd at £1,000 yn rhedeg trwy'r flwyddyn a gellir cael mynediad iddi trwy gynghorwyr lleol.

## Merthyr Tudful yn cyflawni targedau Ail-ddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio Llywodraeth Cymru

Dangosodd ffigyrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar bod Merthyr Tudful yn ailgylchu 67% o'r gwastraff a gynhyrchir.

**Mae hyn 1.6% yn uwch na cyfartaledd Cymru y llynedd.**

Dwedodd y Cynghorydd David Hughes, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, ***"Roedden ni ymysg yr 18 allan o 22 Awdurdod Lleol i gyrraedd y targed a dim ond gyda eich cefnogaeth chi, ein trigolion, allwn ni wneud hyn yn flynyddol gan wella ein cyfradd ailgylchu yn raddol tuag at darged 2024/25 o 70%. Diolch."***

Gellir gweld yr holl erthygl gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adroddiad yma:

https://gov.wales/local-authority-municipal-waste-management-april-2020-march-2021

## Yr YMCA i ddyfod yn 'adnodd masnachol safonol mewn lleoliad hanesyddol, unigryw'

Mae cyn adeilad yr YMCA ar fin cael ei drawsffurfio yn 'hyb ysbrydoledig ar gyfer gweithgareddau economaidd a chymdeithasol yng nghalon Merthyr Tudful.'

Mae'r adeilad Gradd II Rhestredig wedi bod yn wag am dros ddegawd a bydd yn derbyn buddsoddiad o £8.6 miliwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, rhaglenni Adeiladu ar gyfer y Dyfodol a Thrawsffurfio Trefi, Llywodraeth Cymru a hefyd gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Nod y cynllun yw trawsffurfio'r YMCA i 10 uned ar brydles a chreu'r hyn a ddisgrifir yn 'adnodd masnachol, safonol mewn lleoliad hanesyddol, unigryw,' gan alluogi busnesau a'r gymuned leol i ddefnyddio'r adeilad.

"Bydd y datblygiad hwn yn creu man gwaith dyfeisgar a chydweithredol ac yn denu busnesau newydd a chyfredol i ganol y dref," meddai'r Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod o'r Cabinet ar gyfer Adfywio, Trawsffurfio a Masnacheiddio.

"Roedd yr YMCA yn wreiddiol yn ganolfan flaengar ar gyfer datblygiad cymdeithasol a phersonol ac mae wedi bod yn symbol o adfywiad Merthyr Tudful," ychwanegodd.


"Byddai colli'r adeilad wedi creu gwagle yn nhreftadaeth gyfoethog canol y dref ac wedi bod yn arwydd o'r edwino parhaus. Bydd yn awr yn cael ei ddiogelu a'i ailwampio i'r safon uchaf gan gadw'r arwyneb blaen, unigryw."

Mae'r strwythur pedwar llawr, terracotta yn 'adeilad o bwysigrwydd rhyngwladol ac yn parhau i fod yn rhan bwysig o dreflun, modern y dref.' Cafodd ei gynllunio gan y pensaer Cymreig blaengar, Syr Percy Thomas ym 1911.

"Mae'r adeilad yn gwneud cyfraniad pwysig ac yn wagle cyhoeddus, hanesyddol o bwys gyda'i rodfa a'i lwybr cerdded ar ei ochr ddeheuol. Mae'n bwysig i lif y cerddwyr trwy'r dref," meddai adroddiad gan un o'r swyddogion.

"Bydd yma 954m2 o unedau masnachol integredig, hyblyg a bydd yn hyb ysbrydoledig ar gyfer gweithgaredd economaidd yng nghalon Merthyr Tudful."

Mae John Weaver (Contractwyr) wedi bod yn llwyddiannus ac wedi ennill y contract ar gyfer y gwaith ailddatblygu. Mae gan y cwmni adran gadwraeth adeiladau sydd yn arbenigo ar sicrhau fod tirnodau ac adeiladau diwylliannol sydd yn rhan allweddol o ddiwydiant twristiaeth Cymru yn cael eu diogelu a'u bod yn cael eu defnyddio a'u bod yn gywir, yn ymddangosiadol.



# Bydd gwastraff cartref ac ailgylchu yn cael ei gasglu ar eich diwrnod arferol dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd

## Ailgylchu'r Nadolig hwn

**Cyngor da!**
Mae'n bwysig fod deunyddiau'n cael eu cadw'n lân ac nad oes unrhyw halogion arnynt fel y gallant gael eu hailgylchu.




Sicrhewch eich bod yn gwahanu eich holl wastraff rydych yn ei greu drost y cyfnod wŷl a rhowch ddeunyddiau ailgylchiadwy mewn cynwysyddion a ddarperir a deunyddiau na ellir eu hailgylchu fel papur lapio Nadolig, bagiau lapio plastig a chludwyr, pecynnua creision, gwastraff anifeiliaid anwes mewn biniau du.

**Gwastraff bwyd**

Gwastraff bwyd yn cynnwys esgyrn, pilion a bwyd sydd dros ben.

Tecstilau ac offer trydanol bach — Batris

Gosodwch decstilau glân ac offer trydanol bach mewn bagiau clir, ar wahân.
Gosodwch fatris yn y bag batris porffor a ddarparwyd.

**Bydd rhaid i chi wneud cais am gasgliad Coed Nadolig go iawn. Ffoniwch 01685 725000 er mwyn archebu casgliad**

**Diwrnodau Casglu**
**Dydd Mercher, 5ed o Ionawr 2022 – Cwm Uchaf**
**Dydd Iau, 6ed o Ionawr 2022 – Cwm Uchaf**

Bydd angen i Gardiau Nadolig a phapur lapio gael eu gosod yn y bin du neu ewch â hwy i'r CGCaA Mae'r CGCaA ar agor rhwng 9am a 4.30pm (mynediad olaf am 4.20pm) bob dydd ac eithrio Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan pan fydd y safleoedd ar gau.

# BYDDWCH YN BAROD AM Y GAEAF

## Ydych chi'n barod am y gaeaf?

Wrth i'r nosweithiau droi yn oerach a thywyllach, mae mwy o siawns am dywydd gwael

Mae y Cyngor, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill wedi cynllunio ar gyfer delio â argyfyngau. Mae'n rhaid I ni fod yn barod am bob math o dywydd o dywydd.

- **Rhifau rhad ac am ddim I'w defnyddio mewn argyfwng** - In a power cut dial 105 os heb drydan, neu 0800 111999 mewn argyfwng nwy.
- **Paratoi eich cartref** – Cadwch dorts wrth law a sicrhewch bod dyfeisiadau trydan yn cael eu gwasanaethu gan beiriannydd cofrestredig Gas Safe I osgoi gwenwyno Carbon Monocsid. Gall preswylwyr bregus dderbyn cymorth ychwanegol trwy gofrestru a Chofrestr Gwasanaeth wedi Flaenoriaethu. Cysylltwch â'ch darparwr trydan a nwy i ddarganfod mwy.
- **Diogelu eich eiddo** – Os credwch bod perygl o lifogydd rhaid gwneud popeth I ddiogelu eich eiddo.Allwch chi ddim archebu sachau tywod, dim ond mewn argyfwng. Gallwch brynu sachau tywod o'r Ganolfan Adeiladu leol.
- **Cadwch olwg ar y tywydd** – Os oes dim trydan, neu bod argyfwng nwy, cadwch olwg are ich cymdogion hefyd.
- **Y Diweddaraf** – Gellir cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyngor ar ein tudalenau cyfryngau cymdeithasol:
- facebook.com/merthyrtydfilcbc
- twitter.com/merthyrCBC
- instagram.com/merthyrtydfilcbc

Am y rhagolygon , rhybuddion a chyngor diweddaraf ewch at Metoffice.gov.uk neu Cymorthnaturiol.cymru

Mewn achosion o dywydd gwael:

**Clirio rhew ac eira** – Os gwelwch bod angen ail-lenwi bin halen cysylltwch arlein ac archebwch. I wybod lleoliad eich bin halen agosaf ewch at wefan y Cyngor.

**Gwybodaeth Ysgolion** – Gellir derbyn gwybodaeth trwy schoolclosures.merthyr.gov.uk. Mew nachos o dywydd gwae mae ysgolion unigol yn gyfrifol am ddiweddaru statws yr ysgol a rhannu gwybodaeth benodol i bob ysgol.

## GWYBOD EICH RHIFAU

**Gwasanaethau Cymdeithasol a Llês** – Os oes brys neu argyfwng gellir cysylltu â Thîm Dyletswydd Brys y Cyngor 24 awr y dydd ar 01443 425011 .

**Os oes angen cysylltu â ni** – Rhif Ffôn tu allan i oriau gwaith yw 01685 385231. Rhif Ffôn argyfwng llifogydd tu allan I oriau gwaith yw 01685 384489.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am Gynllun Trwsio'r Gaeaf ar wefan y Cyngor.

## Partneriaid yn ymuno i daclo tipio anghyfreithlon

Mae grwp yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru,Gweithredu Tipio Anghyfreithlon Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Heddlu De Cymru, Cymdeithas tir Comin Merthyr a Gelligaer, percnogion tir a staff CBSMT wedi ymgynull i daclo y broblem o dipio anghyfreithlon ar Gomin Gelligaer ar y ffordd a adwaenir fel Heol Bogey.

Mae'r comin wedi bod yn ardal tipio anghyfreithlon ers nifer o flynyddoedd ac mae llawer o waith clirio wedi digwydd yno, ac mae'n dychwelyd yn fuan ar ôlei glirio. Y bwriad nawr i'w i ddelio â'r broblem unwaith ac am byth.

Dwedodd Neil Harrison,Arweinydd Tîm Gweithredu Tipio Anghyfreithlon Cymru,: ***"Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd ddifrifol sy'n achosi niwed sylweddol i'r amgylchedd ac yn risg i anifeiliaid a phobl. Mae yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol, yn difetha yr economi leol ac yn cynyddu y tebygolrwydd o ymddygiad gwrth-gymdeithasol megis llosgi. Mae hefyd yn cynyddu y risg o lifogydd, gan y gall gwastraff mawr megis teiars car fynd i nentydd a blocio y llif dŵr.***

***"Mae gwaith diweddar i ymateb i'r broblem tipio anghyfreithlon ar gomin Gelligaer a Merthyr yn galonogol iawn, gyda nifer o brojectau ( fel Project Cyswllt Comin) a gweithredu cymunedol gan bencampwyr lleol yn troi yn erbyn tipio anghyfreithiol a gwneud yr ardal yn le mwy pleserus i gymunedau lleol i fod yn falch ohonno.***

***"Mae'n beth da bod y cyngor wedi creu y grŵp yma, gan ddod â phartneriaid at eu gilydd i sicrhau bod tipio anghyfreithlon y comin yn broblem sy'n cael ei datrys i genhedlaethau heddiw a'r dyfodol".***

Dwedodd y Cynghorydd David Hughes,Aelod y Cabinet am Wasanaethau Cymdogaeth,: ***"Rydyn ni'n gweithio'n galed I daclo'r broblem hon, ond mae hi'n broblem I Dîm Merthyr felly rydym yn apelio ar I bawb ei chefnogi. Mae rheoli eich gwastraff mewn modd cyfrifol yn rhywbeth y gallwn nig yd ei gwneud er mwyn sicrhau Merthyr Tudful wyrddach, lanach. Mae gwybod eich Cyfrifoldebau yn hanfodol – os ydych yn talu rhywun I waredu eich gwastraff rhaid I chi wirio eu bod yn berson cofrestredig clirio gwastraff. Os nad ydynt ac mae'ch eiddo yn cael ei dipio yn anghyfreithlon, gallwch CHI wynebu dirwy."***

## Diweddiariad gwaith trwsio'r ffordd

Rhwng Gorffennaf a Hydref 2021 mae tîm y Priffyrdd wedi:

- Ailwynebu 1.6km o ffyrdd mewn ardaloedd yn cynnwys Treharris, Gellideg a Georgetown.
- Trwsio 1.7km o ffyrdd mewn ardaloedd yn cynnwys Mynwent y Crynwyr, Aberfan and Heol Aberhonddu.
- Adnewyddu 1.4km of lwybrau mewn ardaloedd yn cynnwys, Cefn Coed Gellideg a Thwynyrodyn.

Rydym yn gobeithio cwblhau 1.1km o lwybrau rhwng Tachwedd 2021 a Mawrth 2022.




## Diolch i bawb a gefnogodd Operation Santa 2021!

Mae eich haelioni wastad yn rhagorol a doedd eleni yn ddim gwahanol. Rydych wedi rhoi anrhegion I blant a fyddai o bosib heb gael Nadolig I'w ddathlu.

O waelod calon, diolch yn fawr iawn a Nadolig Llawen.

Oddi wrth staff Adran Gwasanaethau Cymdeithasol CBSMT.



# Preswylwyr yn cytuno ar gynlluniau i ymestyn camerâu cyflymder cyfartalog



Mae preswylwyr mewn rhannau o Wardiau Ynysowen, Plymouth a Threharris wedi cytuno â chynigion i ymestyn y bwriad i osod camerâu cyflymder cyfartalog ar hyd yr A4054 (Ffordd Caerdydd).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Awst a Medi 2021, gan ysgogi dros 1200 o ymatebion gan drigolion, defnyddwyr ffyrdd ac aelodau o'r cyhoedd, gyda dros 63 % o bobl yn cytuno â gosod y camerâu.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ôl i arolygon nodi bod ***"cyflymder troseddol yn digwydd yn barhaus"*** ar hyd y ffordd, gan olygu bod angen gweithredu ar frys i wella diogelwch. Ystyriwyd sawl opsiwn, a barnwyd mai camerâu cyflymder cyfartalog oedd yr ateb mwyaf effeithiol i leihau goryrru.

Dilynodd hefyd ymarfer tebyg gyda thrigolion Merthyr Vale a Mount Pleasant yn 2020 ac yn gynharach yn 2021, lle cytunodd 78 % â gosod camerâu cyflymder cyfartalog ar y darn o'r ffordd sy'n rhedeg trwy'r pentrefi.

Dywedodd y Cynghorydd David Hughes, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth: ***"Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r aelodau o'r cyhoedd a gymerodd yr amser i ddweud eu dweud yn yr ymgynghoriad hwn.***

***"Mae preswylwyr wedi bod yn lleisio'u pryderon ynghylch ceir yn cael eu goryrru ers cryn amser, felly rydyn ni'n falch ein bod ni bellach yn gallu gweithredu gyda chefnogaeth y mwyafrif.***

***"Rwy'n mawr obeithio y bydd y mesurau hyn yn helpu preswylwyr sy'n byw ar hyd y ffordd dan sylw i deimlo'n llawer mwy diogel yn eu cartrefi.***

***"Ein hunig nod yn ystod y broses hon fu gwneud y ffordd yn fwy diogel i bawb a hoffwn i chwalu unrhyw awgrym ei fod yn ddull o wneud arian i'r Cyngor – NI chaiff dirwyon a roddir o ganlyniad i oryrru eu talu i gynghorau. Y Cyngor fydd yn gosod y camerâu, a'n cydweithwyr yn yr Heddlu fydd yn eu gweithredu ac yn delio â phob agwedd ar orfodaeth."***

Sicrhawyd grant o Gronfa Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru ac erbyn hyn, mae proses dendro wyth wythnos wedi dechrau er mwyn sicrhau contractwr i gyflawni'r gwaith. Y gobaith yw y bydd y camerâu'n weithredol yn gynnar yn 2022.

# Ysgolion, cartrefi gofal ac adeiladau'r Cyngor yn newid i dechnoleg sy'n arbed ynni

Dros y pum mis diwethaf, uwchraddiwyd dros 4000 o ffitiadau golau aneffeithlon i oleuadau LED rhad-ar-ynni, ac mae 600 o baneli solar wedi'u gosod ar adeiladau ac ysgolion CBSMT. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i gael y sector cyhoeddus yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

Mae hyn oll wedi bod yn bosibl diolch i wasanaeth Re:fit Cymru, un o brosiectau Llywodraeth Cymru sy'n ceisio optimeiddio effeithlonrwydd ynni mewn eiddo, gwella cyflwr ein hysgolion, lleihau allyriadau C02 ac arbed arian.

Ar ben yr arbedion hyn, bydd yr adeiladau hefyd yn elwa o uwchraddiadau trydanol a mecanyddol, gan arwain at well amgylcheddau dysgu a gweithio ac amodau mwy cyfforddus. Ymhlith y gosodiadau, ceir:

- 30 x uwchraddiad i oleuadau LED
- 9 x system solar PV
- systemau gwresogi a dŵr poeth clyfar
- inswleiddio llofftydd

Yn sgil y Prosiect hwn, amcangyfrifir bod adeiladau'n arbed £136,000 ac yn allyrru 251 tunnell yn llai o garbon bob blwyddyn.

Yn ogystal â'r prosiect adeiladau, rydyn ni'n treialu'r defnydd o gerbydau trydan ac wedi gosod goleuadau stryd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag Arbenigwr Ynni i helpu'r Cyngor i baratoi cynllun a map ffordd er mwyn i ninnau allu chwarae rôl i gyrraedd targed 2030.

Dywedodd y Cynghorydd David Hughes, yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Cymdogaeth: "Mae gan bob un ohonon ni ran i'w chwarae wrth ddatgarboneiddio a gwarchod ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Efallai bod y rhain yn ymddangos fel camau bychain, ond byddan nhw'n mynd yn bell tuag at wneud y Cyngor yn garbon niwtral a gwireddu targed Llywodraeth Cymru.

"Mae'r manteision ychwanegol a ddaw yn sgil gwell amodau dysgu a gweithio yn golygu nid yn unig ein bod yn gwneud y peth iawn dros yr amgylchedd, ond bydd ein pobl ifanc a'n gweithwyr yn dechrau gweld manteision y newidiadau hyn ar unwaith.

***"Fel Cyngor, rydyn ni wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio."***

Am fwy o wybodaeth, ewch i merthyr.gov.uk/council/decarbonisation

# Gwirfoddolwyr yn clirio dros 12 tunnell o leoliad prydferth, lleol

Ym mis Hydref, bu 14 o wirfoddolwyr yn gweithio'n galed drwy'r penwythnos er mwyn clirio tipio anghyfreithlon o un o leoliadau hardd Merthyr.

Denodd y digwyddiad, a drefnwyd gan Daniel Lewis, Prentis Gwasanaethau Cymdogol CBSMT bob o bob cwr, a daeth un ohonynt, bob cam o Wolverhampton i helpu.

Mewn pedair awr yn unig ar fore Sadwrn, cafodd dros 4 tunnell o wastraff ei glirio o Heol Bogey a chliriwyd 8 tunnell arall o Heol Dowlais yn ystod y prynhawn Sadwrn a'r Dydd Sul. Llanwyd 6 sgip a ddarparwyd gan y Cyngor. Roedd y gwastraff a gasglwyd yn cynnwys gwastraff adeiladu, gwastraff domestig ac asbestos.

Dywedodd Daniel: ***"Ein cyfrifoldeb ni, fel preswylwyr Merthyr yw sicrhau fod ein gwastraff yn cael ei ddyddodi'n gywir. Mae dwy ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu ym Merthyr Tudful sydd yn derbyn ac sydd yn ailgylchu'r mwyafrif o wastraff AM DDIM. Mae hefyd nifer o gludwyr gwastraff cofrestredig all ddyddodi mathau eraill o wastraff yn gywir.***

***"Does DIM ESGUS dros dipio anghyfreithlon a sbwriela. Mae'n gadael craith ar ein mannau prydferth ac yn berygl i'n hamgylchedd ac i'n bywyd gwyllt lleol."***

***"Ni fyddai'r prosiect hwn wedi bod yn bosib heb gefnogaeth lawn ein Prif Weithredwr, Ellis Cooper, Adran Gwasanaethau Cymdogol CBSMT a'r holl wirfoddolwyr. Rwy'n falch i fod wedi gweithio gyda nhw."***

Cafodd yr holl wastraff a gasglwyd ei ddidoli a lle'n bosib, ei ailgylchu.

Diolch yn fawr i holl aelodau Wild Campers Against Waste, Clwb Barcuta a Pharagleidio De Ddwyrain Cymru, Grŵp Gweithredu Jess Flag, Cymdeithas Cymunwyr Merthyr a Gelligaer ac i bawb arall a ddaeth allan i'n cynorthwyo.



# Glanhau Lôn Goitre yn llwyddiant ysgubol



Y Hydref treuliwyd chwe chan awr trwy gydol yr wythnos yn glanhau ardal Lôn Goitre yn sgil y llanast a adawyd gan dipwyr anghyfreithlon.

Bu gwirfoddolwr o Brosiect Dynion y Gurnos yn cynorthwyo 25 aelod o staff y Cyngor o Adrannau'r Gwasanaethau Cymdogol, Glanhau Strydoedd, Cynnal a Chadw Safleoedd a'r Tîm Coed i lanhau'r ardal.

Darparwyd sgipiau gan Tai Merthyr Valley er mwyn mynd â'r gwastraff oddi yno a chyflwynwyd llythyron i'w preswylwyr yn eu hysbysu o'r glanhau ac yn gofyn iddynt am eu cefnogaeth gan rybuddio y gallai unrhyw un sydd yn cael eu dal yn tipio'n anghyfreithlon gael eu herlyn.

Casglwyd saith llwyth lori o ddeunyddiau i'w hailgylchu oddi yno a oedd yn cynnwys 253 bag o ddeunyddiau i safle Canolfan Gwastraff ac Ailgylchu Cartref y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Lee Davies: ***"Mae Lôn Goitre wedi bod yn flaenoriaeth ers amser. Mae'n le braf i breswylwyr gerdded ac mae gweld cymaint o dipio anghyfreithlon yn y lôn wedi bod yn beth trist, yn enwedig gan ei fod yn llwybr i'r ysgol i blant.***

***"Hoffai Cynghorwyr Ward Gurnos ddiolch i holl staff y Cyngor, i staff Tai Merthyr Valleys Homes ac i wirfoddolwyr Prosiect Dynion y Gurnos am eu gwaith caled yn glanhau'r tipio anghyfreithlon. Rydym am sefydlu gr p cymunedol Cyfeillion Lôn Goitre a fydd yn cydweithio â ni er mwyn cynnal y lôn a gwneud gwelliannau."***

Dywedodd y Cynghorydd David Hughes, Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdogol: ***"Roedd hon yn dasg enfawr a hoffwn longyfarch fy nghydweithwyr Ward a phawb a fu'n rhan o hyn. Mae'r lluniau cyn ac ar ôl yn adrodd y cyfan ac mae'ch ymdrechion wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ardal. Diolch."***

Roedd preswylwyr yn hapus iawn â'r canlyniadau ac yn awyddus i ddiolch i'r staff ac i'r gwirfoddolwyr. Y gobaith yw y bydd pawb yn ceisio sicrhau y bydd yr ardal yn cael ei chadw'n lân o hyn ymlaen.

# Merthyr Tudful wedi ei enwi fel un o fannau gwyrdd gorau'r wlad

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi datgelu enillwyr Gwobr y Faner Werdd eleni – marc rhyngwladol o barc neu fan gwyrdd o ansawdd.

Bydd y baneri yn hedfan ym Mharc Cyfarthfa, Parc Taf Bargoed, Parc Thomastown a Mynwent Aberfan, i gydnabod cyfranogiad ymroddedig gan ei wirfoddolwyr, safonau amgylcheddol uchel ac ymrwymiad i gyflawni man gwyrdd o ansawdd gwych.

Dywedodd y Cynghorydd David Hughes, aelod portffolio gwasanaethau cymdogaeth: "Rwy'n falch iawn bod tri parc a un mynwent reolir gan y Cyngor wedi cael eu hanrhydeddu â'r gwobrau hyn.

"Gydag ychwanegiant canolfan goedwig garwnant, sy'n cael ei rheoli gan Adnoddau Naturiol Cymru, mae merthyr tydfil yn ymfalchïo mewn pum Gwobr baner werdd; rhywbeth y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono.

"Mae yna hefyd 11 o wobrau cymunedol eleni ar gyfer merthyr Tudful, na fyddai pob un ohonynt wedi bod yn bosibl heb waith caled ac ymroddiad llawer o'n grwpiau cymunedol a'n gwirfoddolwyr.

"Hoffwn longyfarch a diolch i bawb sy'n ymwneud â wedi chyflawni hyn."

Dyfarnwyd 11 gwobr ir canlynol: Gwarchodfa Natur Cilsanws, Canolfan Gymunedol Dowlais, Ysgol Babanod a Graddedigion Cymunedol Dowlais, Gardd Gymunedol Prosiect Dynion Gurnos, gardd natur Gymunedol Muriel a Blanche, parc pyllau a pyllau coed Penywern Top, Parc Pontstillticll, Pentref ponsticlltich, Gardd natur Cymunedol y Hafod, Woodland Walk.

Dywedodd y Cynghorydd Declan Sammon, Dirprwy Faer a Chadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chraffu Cefn Gwlad: "Maer pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw mannau gwyrdd i'n cymunedau.

"Mae'n wych gweld cymaint o grwpiau lleol bach ledled Merthyr Tudful yn gwneud eu gorau i wella eu hardaloedd lleol ac yn cael eu gwobryo am eu qwaith caled trwy ennill Faner Werdd.

"Mae'r safleoedd hyn o fudd i'r gymuned gyfan, nid yn unig fel le i fwynhau ac ymlacio ond maent hefyd yn helpu gyda lles iechyd corfforol a meddylio ein gwirfoddolwyr".

Cyflwynir rhaglen Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Gwirfoddolodd arbenigwyr mannau gwyrdd annibynnol eu hamser ar ddechrau'r hydref i feirniadu safleoedd ymgeiswyr yn erbyn wyth o feini prawf llym, yn cynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheolaeth amgylcheddol, a chyfranogiad cymunedol.

# Cyfnod 2 trwsio ar ôl storm yn mynd yn dda

Mae ein tîmau Priffyrdd a Pheirianeg yn gweithio ar ail flwyddyn o raglen tair mlynedd i drwsio ac atgyweirio yr isadeiledd a ddifrodwyd yn ystod Storm Dennis ym mis Chwefror 2019.


Fel yr adroddwyd o'r blaen, adnabuwyd 50 project ym Merthyr Tudful o ganlyniad i'r storm, ar gost o tua £8.5m.

Mae natur y gwaith yn amrywio o:

- Trwsio gwteriCulvert repairs
- Adfer dorlanau afonnydd
- Gosod sgriniau sbwriel a monitorau llifogydd i gwteri
- Cynnyddu capasiti y sianeli
- Amddiffyn rhag sgwrio dan bontydd
- Gwaith sefydlogi i ardaloedd tirlithriad

Hyd yn hyn mae 24 cynllun wedi ei orffen, gyda 4 cynllun ar hyn o bryd ym Mhentrebach, Bedlinog, Pontsarn a Phantysgallog.

Dyma luniau yn dangos peth o'r gwaith.









# Yr unig beth sy'n well na chanu…

… yw mwy o ganu, yn ôl Ella Fitzgerald. Ac fel y gŵyr aelodau Côr Meibion Dowlais, a welwch yn y llun, mae eu hymarferion rheolaidd yn lleihau stres ac yn hybu cyfeillgarwch a mwynhad. Yr hyn efallai nad ydyn nhw'n ei wybod yw pam yn union y mae hynny'n digwydd, a pham y mae meddygon mewn rhai rhannau o'r wlad bellach yn cymeradwyo canu corawl fel ffordd i wella iechyd. Mae ein corff yn ymateb ar unwaith i berygl trwy "ymladd neu ffoi" a chaiff ei reoli i raddau helaeth gan y system nerfol sympathetig. Roedd hyn yn fecanwaith effeithiol wrth wynebu anifail peryglus yn yr oesoedd a fu, ond heddiw mae'r un mecanwaith yn cael ei sbarduno gan weithio mewn swyddi dirdynnol a phatrymau cymudo prysur ac ati. Yn wahanol i berygl sydyn, mae'r mathau hynny o stres yn tueddu i fod yn barhaus, a gall hormonau stres sy'n aros yn ein cyrff arwain at amrywiaeth o broblemau iechyd o ran y meddwl a'r corff - pryder, stres cronig, iselder ysbryd, pwysedd gwaed uchel, diffyg traul i enwi ond ychydig.

A'r newyddion da? Mae gennym ail system nerfol - y system barasympathetig - sy'n rheoli'r modd yr ydyn ni'n "gorffwys a threulio", gan ganiatáu i'r corff weithredu'n normal a gwella'i hun. Elfen allweddol o'r system hon yw nerf y fagws sy'n rhedeg i'r rhan fwyaf o'r prif organau, ac wrth iddo fynd trwy'r thoracs gellir ei ysgogi trwy ganu. Felly, dyna chi … mae canu gyda'n gilydd nid yn unig yn hwyl ac yn ymlaciol - mae hefyd o fudd i'r meddwl a'r corff.

Gyda Covid, mae'r dyddiau hyn yn anodd. Felly os ydych chi'n canu yn y bath, yn y car neu ar y cae chwarae, beth am wneud y gorau o'ch cerddoriaeth trwy ymuno â chôr lleol? Mae pob un o'r corau wedi asesu eu rhagofalon Covid eu hunain i gadw'u haelodau'n ddiogel. Dewch draw i ymarfer gyda chôr cymysg, côr meibion neu gôr merched. Mae Côr Meibion Dowlais wedi'i leoli yng nghanol Merthyr ac yn barod i groesawu cantorion o unrhyw oedran neu allu - nid oes angen profiad nac unrhyw angen i ddarllen miwsig. Dewch o hyd i ni yn dowlaismalechoir.co.uk

Edrychwch ar wefannau corau eraill yn ardal Merthyr: Côr Tenovus, Côr Meibion Ynysowen, Con Voce, Cantorion Cyfarthfa - mae digon o ddewis!

Peidiwch ag oedi, cymerwch gam tuag at iechyd gwell ac ymunwch â chôr lleol heddiw.

*Cyfansoddwyd gan Nick Heuvel - Ysgrifennydd, Côr Meibion Dowlais*



# Y Cyngor yn cyhoeddi 'Gweledigaeth Economaidd'

Y Cyngor yn cyhoeddi 'Gweledigaeth Economaidd'

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei gynllun 15 mlynedd uchelgeisiol i ddatgloi 'potensial economaidd gwych' Merthyr Tudful.

Yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ynghynt eleni ar effaith y pandemig, derbyniodd ein tîm datblygu economaidd adborth gwerthfawr a fydd yn hysbysu 'Gweledigaeth Economaidd' y Cyngor ar gyfer y ddwy ddegawd nesaf.

Paratowyd y ddogfen mewn ymateb i'r anghenion economaidd, manteisio ar gyfleoedd buddsoddi rhanbarthol a lleol a chymryd dull holistig o weithio er mwyn cryfhau'r economi a chynllunio twf.

Bwriad y weledigaeth yw: "Creu amgylchedd sydd yn cefnogi twf busnesau ac sydd yn denu busnesau i fuddsoddi; darparu sgiliau a'r ddealltwriaeth i gael swydd neu ddechrau busnes; cynorthwyo sefydliadau'n cymuned i ffynnu a denu mwy o ymwelwyr i fwynhau'n bwrdeistref sirol anhygoel."

Bydd yn cael ei ddarparu drwy saith 'uchelgais graidd':

- Amrywiaeth economaidd
- Cyrchfan Merthyr
- Addysg a hyfforddiant
- Cartrefi Modern a Mannau Gwych
- Trawsffurfio cysylltedd
- Gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol
- Adnoddau naturiol ac economi carbon isel

Y camau nesaf fydd paratoi a darparu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un uchelgais graidd. Bydd pob un yn dynodi blaenoriaethau, prosiectau, partneriaid, goblygiadau cyllidebol / ariannol ac amserlenni darpariaeth.

## Sicrhau Dathliad Diolgel I Breswylwyr

Mae'r Cyngor, yr Heddlu a busnesau lletygarwch lleol yn cydweithio er mwyn sicrhau fod preswylwyr ac ymwelwyr yn mwynhau nosweithiau diogel allan ynghanol y dref y Nadolig hwn.

Mae Heddlu De Cymru yn darparu hyfforddiant i staff tafarndai, clybiau a thai bwyta ar sut i fod yn ymwybodol o bobl allai fod mewn sefyllfaoedd sydd yn agored i niwed a bydd y Cyngor yn gofyn i yrwyr tacsi fod ar eu gwyliadwriaeth, yn ogystal.

Dywedodd Cynghorydd Kevin O'Neill "Llynedd, wrth gwrs mi roedd hi'n dawel gan ein bod yn y cyfnod clo. Eleni, rydym yn disgwyl cyfnod prysurach na'r arfer o ddathliadau gan na wnaethpwyd hynny yn 2020.

"Rydym hefyd yn ymateb yn sgil y sylw cenedlaethol sydd yn cael ei roi ar hyn o bryd i ferched mewn amgylchedd fel hyn."

Bydd 'hyfforddiant peryglon posib' yr Heddlu yn ceisio annog gweithwyr yn y maes lletygarwch i fod ar eu gwyliadwriaeth a nodi cwsmeriaid a theithwyr sydd yn ddigalon, wedi eu hanafu neu sydd i weld yn anghyfforddus.

Byddwn hefyd yn gofyn i yrwyr tacsi edrych am arwyddion o gamdriniaeth ddomestig; boed hynny wedi digwydd yn barod neu ei fod yn debygol o ddigwydd wedi i gyplau ddychwelyd adref a chadw golwg ar deithwyr ifanc sydd yn teithio i wahanol leoliadau ac sydd o dan reolaeth oedolyn.

Dywedodd y Cynghorydd O'Neill; ***"Bwriad yr ymgyrch yw hybu Merthyr Tudful fel lle sydd yn ddiogel i ymweld ag ef ac i gymdeithasu'r Nadolig hwn. Drwy gydweithio, gallwn sicrhau hynny."***



## Mae prosiect tai fforddiadwy yn darparu 31 o gartrefi newydd

Mae'r gwaith wedi dechrau ar adeiladu 31 o dai newydd o 'ansawdd uchel' i'w rhentu fel rhan o ddatblygiad £4.4miliwn mewn rhan wledig o Ferthyr Tudful.

Mae prosiect Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn Heol Bryniau, Pant yn cael ei ariannu'n rhannol gan Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a ddyfernir drwy'r Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Bydd yr adeiladwyr lleol, Holbrook Homes, yn adeiladu 15 o fflatiau un ystafell wely, 12 o dai dwy ystafell wely, dau dŷ tair ystafell wely a dau fyngalo dwy ystafell wely mewn ardal o dir diffaith ar y ffordd i'r Pant.

Fel rhan o'r contract, mae Holbrook Homes yn darparu cyfleoedd am swyddi newydd a hyfforddi sgiliau yn uniongyrchol a thrwy ei gadwyn gyflenwi ac isgontractwyr. Mae gan y cwmni hefyd gynlluniau i weithio gydag Ysgol Gynradd Pantysgallog gerllaw ar amrywiaeth o brosiectau yn yr ysgol ac o'i hamgylch.

***"Mae'r Grant Tai Cymdeithasol wedi cael ei sicrhau drwy'r bartneriaeth gref rhwng gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol a Chymdeithas Tai Merthyr Tudful i gyflenwi'r angen am dai newydd fforddiadwy ym Merthyr Tudful,"*** dywedodd Dirprwy Brif Weithredwr y Cyngor y Cynghorydd Alyn Owen.

***"Mae'n cynrychioli'r enghraifft ddiweddaraf o'r Cyngor a Chymdeithas Tai Merthyr Tudful yn gweithio ynghyd i symud datblygiad newydd a phrosiectau adfywio yn eu blaen, ac mae nifer o enghreifftiau eraill ohonynt ar y gweill,"*** ychwanegodd.

Dywedodd Karen Courts: ***"Gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, grant oddi wrth Lywodraeth Cymru a chyllid preifat oddi wrth y Gymdeithas, bydd y cyllun hwn yn darparu 31 o dai newydd a fydd ar gael i'w prydlesu am rent fforddiadwy.***

Disgwylir i'r cartrefi newydd gael eu cwblhau ym mis Gorffennaf 2022 a bydd Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn hysbysebu eu bod ar gael cyn hynny.

BEDLINOG AND TRELEWIS COMMUNITY COUNCIL

Diweddariad ar gyfer preswylwyr Bedlinog a Threlewis:

- Mae bylbiau a phlanhigion y gaeaf wedi eu plannu o amgylch y pentrefi.
- Bydd mwy o oleuadau Nadolig eleni nag erioed o'r blaen.
- Yn y flwyddyn newydd byddwn yn cynhyrchu cylchlythyr pob chew mis.
- Rydym yn cydweithio gyda Cymdeithas Lês Glowyr Bedlinog i wella y cyfleusterau adloniant ar gyfer y gymuned. Bydd newyddion am hyn yn fuan.
- Rydym wedi derbyn cyllid pellach i wella rhandir Bedlinog . Rydym yn edrych ar leoliadau yn Nhrelewis ar gyfer sefydlu rhandir cymunedol.
- Rydym wedi prynu pedwar diffibriwleiddydd- dau ar gyfer Bedlinog a dau ar gyfer Trelewis, yn ogystal i'r rhai sydd mewn lle eisioes.

Rydym wrth ein boddau i fod wedi cefnogi:

- Cymdeithas Bysgota Taf Bargoed gyda grant tuag at brynu offer pysgota ar gyfer clwb pysgota yr ieuenctid.
- Pwyllgor Lles yr Henoed gyda grant tuag at gost prydau Nadolig.
- Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog ac Ysgol Gynradd Trelewis gyda grant i dalu am gludiant i fynychu pantomeim Nadolig.

Mae ein Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-2022 wedi ei gyhoeddi ac ar gael ar ein gwefan bedlinogcommunitycouncil.gov.wales

## Ydych chi'n barod i gymryd y cam nesaf yn eich gyrfa?

Gydag adnodd dysgu ar-lein Gofalwn Cymru, gallwch chi osod eich hun ar wahân i ymgeiswyr eraill wrth wneud cais i swyddi mewn Gofal. Darganfyddwch fwy ar Gofalwn.cymru





